**LGH-06-01 (min)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 2 Mai 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 1.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd (eitemau 1 i 6) |
| (Cadeirydd) | |
| Edwina Hart | Gwyr (eitemau 1 i 6) |
| (Gweinidog) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru (ar wahân i eitemau 4 a 5) |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol a Thai |

| | |
|---|---|
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai (eitemau 3 a 4) |
| David A'Herne | Cyfarwyddwr Cymru dros Leihau Torcyfraith (eitem 5) |
| David Groves | RNIB Cymru (eitem 6) |
| Jim Edwards | RNID Cymru (eitem 6) |
| Norma Barry | Cyfarwyddwr, Yr Uned Adfywio Cymunedol a Chynhwysiant Cymdeithasol (eitem 6) |
| Y Cyng Ted George | Cadeirydd Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru (eitem 7) |
| Brain Fraser | Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân De Cymru (eitem 7) |
| Ronnie King | Prif Swyddog Tân, Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru (eitem 7) |
| Simon Smith | Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (eitem 7) |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

*Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;

- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun;
- Dywedodd Gwenda Thomas ei bod yn Aelod o'r Comisiwn Digartrefedd a bod ei mab yn weithiwr cyflog i'r Gwasanaeth Tân.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: LGH-06-01 (p.1)**

3.1 Yn ychwanegol at ei hadroddiad ysgrifenedig, gwnaeth y Gweinidog gyhoeddiad yngln â blwyddyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf. Dywedodd Edwina Hart ei bod wedi dod i'r penderfyniad, ar ôl ymgynghori, y dylai'r etholiadau llywodraeth leol ac etholiad y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cynnal ar ddyddiadau gwahanol, gydag etholiadau'r cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a'r cynghorau tref a chymuned i gael eu cynnal ar yr un diwrnod. Diben y cynigion hyn oedd lleihau dryswch ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. O ran y dyddiadau, y cynnig oedd gohirio'r etholiadau lleol tan 2004, flwyddyn ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r Gweinidog yn dod â Gorchymyn gerbron maes o law i roi'r newidiadau hyn ar waith.

3.2 Croesawai rhan fwyaf yr Aelodau y cam i gynnal etholiadau llywodraeth leol ac etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ar ddyddiadau gwahanol. Mynegodd un Aelod farn gwbl groes, gan awgrymu y byddai mwy o bobl yn cymryd rhan pe bai'r etholiadau i gyd yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod.

3.3 Yr oedd yr Aelodau yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hadroddiad ysgrifenedig llawn a oedd, yn eu tyb nhw, yn esiampl o eglurder. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad:

- Yr oedd yna bryder yngln â'r nifer fach o awdurdodau lleol a oedd wedi cyflwyno hawliadau o dan gynllun Bellwin yng nghyswllt y llifogydd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n anfon nodyn at yr awdurdodau lleol i'w hatgoffa ac ymrwymodd i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa i'r Pwyllgor. Cytunodd hefyd i roi manylion y ceisiadau am gyllid ychwanegol i gwrdd â chost gwaith cyfalaf sy'n ofynnol o ganlyniad i'r tywydd garw i'r Aelodau. Awgrymwyd y dylid ystyried rôl y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth o ran monitro'r gwaith atgyweirio a gwella angenrheidiol.
- Nododd y Pwyllgor ymrwymiad y Gweinidog i gymryd yr ymatebion i'r ymgynghori ynghylch y fframwaith moesegol newydd i lywodraeth leol i ystyriaeth. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn briffio i'r Aelodau yn nodi sut y bwriadai fwrw ymlaen i roi'r fframwaith ar waith. Dywedodd y byddai'r gofyniad ar i gynghorwyr gofrestru eu holl fuddiannau yn cael ei ddileu ac y byddai'r cod yn cynnwys rhestr o fuddiannau penodedig, gan gynnwys aelodaeth o glybiau preifat.
- Nododd y Pwyllgor aelodaeth y Comisiwn Trefniadau Etholiadol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ystyried a ddylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd gael ei chynrychioli ar y Comisiwn. Yr oedd rhywfaint o bryder y gallai hynny rwystro'r Gymdeithas rhag rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn. Mynegodd un Aelod ei siom nad oedd Dr Dafydd Trystan wedi'i

benodi, er i'r Gweinidog gadarnhau y gallai gyflwyno ei farn i'r Comisiwn.

- O ran polisi tai yng nghefn gwlad, croesawai'r Pwyllgor y symudiad i atgoffa awdurdodau lleol o'u hawl i roi cyfyngiadau ar ailwerthu tai a brynwyd o dan yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd gwledig penodedig. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau ar y canllawiau cynllunio defnydd tir mewn perthynas ag ail gartrefi yng Nghymru a Lloegr.
- Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau ar y ceisiadau a wnaethpwyd o dan y Cynllun Grant Rheoli Tai.
- Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar gyfarfod y Gweinidog gyda'r sector gwirfoddol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl gweld tystiolaeth bod awdurdodau lleol wedi ymgynghori'n briodol gyda'r sector gwirfoddol yngln â chynnwys cymunedau yn y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*.

3.4 Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r £12 miliwn yr oedd y Gweinidog wedi'i ryddhau i awdurdodau lleol yn ddiweddar fel y gallent wneud defnydd helaeth o'u pwerau i ganiatáu rhyddhad rhag trethi i fusnesau yr effeithiwyd arnynt oherwydd clwy'r traed a'r genau. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copi o ganllawiau'r cynllun i'r Aelodau, ac ymrwymodd i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yng Ngorffennaf gan fanylu ar sut yr oedd awdurdodau lleol wedi defnyddio'r adnoddau hyn.

**Eitem 4: Y Comisiwn Digartrefedd – Adroddiad cynnydd: LGH-06-01 (p.2)**

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog yr adroddiad i'r Pwyllgor. Dywedodd mai grp gorchwyl a gorffen oedd y Comisiwn Digartrefedd ac y byddai ei waith yn dod i ben erbyn canol yr haf, gyda'r argymhellion terfynol a'r adroddiad ar gael erbyn yr Hydref. Yr oedd y Comisiwn eisoes wedi cwrdd yng Nghaerdydd, Llandrindod, Caerdydd ac Abertawe, ac yr oedd cyfarfodydd wedi'u cynllunio i'w cynnal yng Ngogledd a Dwyrain Cymru.

4.2 Dywedodd Peter Black fod y Comisiwn yn ymdrin â'i waith mewn modd trawsbynciol a oedd yn hwyluso gweithio drwy bartneriaeth ar draws asiantaethau er mwyn cyflawni nod cyffredin. Yr oedd wedi cynnwys nifer o gyrff digartrefedd allanol yn ei waith ac wedi derbyn sylwadau gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Grwpiau Iechyd Lleol. Yr oedd i fod i gwrdd â chynrychiolwyr o Gydffederasiwn yr NHS, yr Asiantaeth Budd-daliadau a'r Gwasanaeth Prawf maes o law.

4.3 Cydnabyddai'r Comisiwn Digartrefedd mor bwysig yw cael gwybodaeth o lygad y ffynnon yngln â'r materion sy'n effeithio ar bobl ddigartref. Yr oedd wedi cwrdd â grp defnyddwyr yn Abertawe i gael clywed barn pobl ifanc ddigartref. Dywedodd Peter Black fod y Comisiwn yn y broses o gysylltu â grwpiau defnyddwyr eraill er mwyn clywed rhagor o safbwyntiau.

4.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad cynnydd a'r gwaith yr oedd y Comisiwn Digartrefedd wedi'i wneud hyd yma. Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig i'r Comisiwn ganolbwyntio ar ffyrdd o atal digartrefedd, sicrhau bod strwythurau cynnal digonol wedi'u sefydlu, helpu i ledaenu'r ymarfer gorau a sicrhau y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dywedodd Peter Black y byddai'r gwaith sydd ar y gweill gan y Comisiwn yn rhoi sylw i'r materion hyn. Rhoddai bwyslais neilltuol ar ddatblygu Strategaeth Digartrefedd enghreifftiol, gan y byddai'r Mesur Cartrefi yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaeth o'r fath.
- Cydnabyddai'r Pwyllgor y cyfraniad holl bwysig a wneir gan y sector gwirfoddol o ran mynd i'r afael â digartrefedd. Yr oedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ledled Cymru, er enghraifft gan Gymuned Wallich Cilfford yng Nghaerdydd. Cytunwyd mai un dasg bwysig i'r Comisiwn fyddai canfod bylchau yn y ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r berthynas rhwng tai gwael ac iechyd. Awgrymwyd y byddai dolenni cyswllt cryfach rhwng cyllidebau tai ac iechyd yn dod â budd ychwanegol ac yn ychwanegu gwerth at waith y Comisiwn. Dywedodd Peter Black fod y Comisiwn yn ymdrin mewn modd trawsbynciol ag iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, a'i fod yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd.

4.5 Gwahoddodd y Cadeirydd y Dirprwy Weinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth fwrw ymlaen â gwaith y Comisiwn.

**Eitem 5: Cynlluniau lleihau torcyfraith – Adroddiad cynnydd: LGH-06-01 (p.3)**

5.1 Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Gweinidog fod y Rhaglen Lleihau Torcyfraith yn werth rhyw £400 miliwn dros dair blynedd, gan gynnwys cyllid o £6.3 miliwn ar gyfer prosiectau yng Nghymru. Yn ogystal, yr oedd 33 o gynlluniau teledu cylch cyfyng o Gymru wedi'u cynnwys ar y rhestr fer o dan ail gylch y rhaglen. Pe baent yn llwyddiannus, byddai'r ceisiadau hyn yn golygu bod £5.8 miliwn pellach yn dod i Gymru, £1.2 miliwn ohono ar gyfer teledu cylch cyfyng ar stadau tai cymdeithasol.

5.2 Bwriadwyd y £220 miliwn ychwanegol a ryddhawyd o dan y cynllun Cymunedau Yn Erbyn Cyffuriau i helpu'r heddlu a chymunedau lleol i chwalu'r farchnad gyffuriau leol a gyrru'r gwerthwyr cyffuriau allan. Dywedodd David A'Herne na fyddai rheolau caeth ynghlwm wrth y cyllid ac mai'r bwriad oedd cynnig atebion lleol ac atgyfnerthu trefniadau cydweithio yn lleol. Yr oedd y Partneriaethau yn cael eu hannog i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol mewn ffordd hyblyg a llawn dychymyg.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad cynnydd ar gynlluniau lleihau torcyfraith, yn enwedig y cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â throseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â defnyddio cyllid i gynorthwyo i drin ac ailsefydlu troseddwyr, yn ogystal ag

at ddibenion addysgol i helpu i atal y broblem. Dywedodd David A'Herne fod y Partneriaethau Troseddu ac Anhrefn wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ffyrdd o helpu'r rhai sy'n dioddef oherwydd cyffuriau ac y byddai strategaethau i fynd i'r afael â hyn yn cael eu llunio erbyn yr haf. Cytunodd y Gweinidog i roi dadansoddiad i'r Aelodau o'r cyllid sydd ar gael i bob partneriaeth o dan y cynllun Cymunedau Yn Erbyn Cyffuriau.

- Dywedodd David A'Herne fod Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998 wedi rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a'r heddlu fel partneriaid allweddol i weithio gyda'r gwasanaeth prawf, awdurdodau iechyd, y sector gwirfoddol, y sector busnes a'r gymuned i ddatblygu strategaethau lleol i ostwng lefel troseddu ac anhrefn. Yn ychwanegol at y Partneriaethau Troseddu ac Anhrefn ar lefel awdurdodau lleol, yr oedd yna grwpiau rhanbarthol o Bartneriaethau yn ardal pob un o'r pedwar Awdurdod Heddlu, yn ogystal â phwyllgor Cymru-gyfan.
- Nodwyd mai diben y Gronfa Datblygu Partneriaethau oedd gwneud y Partneriaethau Troseddu ac Anhrefn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Yr oedd yna bryder nad oedd yr £1.2 miliwn a neilltuwyd i Gymru yn gymesur â'r swm a dderbyniwyd gan ranbarthau Lloegr. Dywedodd David A'Herne fod y cyllid sydd ar gael wedi'i ddyrannu yn unol â fformwla sy'n adlewyrchu nifer y Partneriaethau a'r lefelau troseddu. Byddai'r Cyfarwyddwr Lleihau Torcyfraith yn ymgynghori â'r Partneriaethau yngln â'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid.
- Mynegwyd pryder gan un Aelod na fyddai cynyddu'r ymdrechion i fynd i'r afael â throseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau ond yn symud y broblem i rywle arall efallai. Cadarnhaodd David A'Herne fod ymchwil wedi dangos y gallai hynny ddigwydd yn wir ac y byddai angen strategaeth i wrthsefyll hynny'n effeithiol.

5.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y cynlluniau lleihau torcyfraith i ystyriaeth.

**Eitem 6: *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* – Ystyried yr ymatebion i'r broses ymgynghori: LGH-06-01 (p.4)**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd David Groves o RNIB Cymru a Jim Edwards o RNID Cymru i'r cyfarfod. Gwahoddodd nhw i roi eu cyflwyniadau ar ôl i'r Gweinidog gyflwyno ei phapur.

6.2 Dywedodd y Gweinidog fod yr ail ddogfen ymgynghorol a fanylai ar y cynigion i weithredu *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* wedi cael derbyniad da. Bellach yr oedd 130 o ymatebion ysgrifenedig oddi wrth y sectorau statudol, gwirfoddol a chymunedol yn cael eu hystyried yn ofalus, ynghyd â chanlyniad y seminar ymgynghorol a gynhaliwyd fis Ionawr. Byddid yn defnyddio'r rhain i benderfynu ar y rhaglen derfynol, i ddatblygu canllawiau i bartneriaethau a pharatoi'r cynlluniau cyflenwi lleol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig bwrw ymlaen i enwi'r cymunedau a fyddai'n elwa o'r rhaglen.

6.3 Tynnodd David Groves sylw at yr angen i gynnwys 'Cymunedau sydd â'r un Buddiannau' yn y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*. Sail y cysyniad hwn yw cydnabod mai nid mewn termau daearyddol yn unig y diffinnir cymunedau, ond y dylid eu hystyried mewn cyd-destun ehangach. O wneud hynny, byddai *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* yn ymgorffori anghenion pobl anabl, gan

gynnwys y 120,000 o bobl ddall a phobl â golwg rhannol yng Nghymru. Awgrymodd y byddai angen cyllid ychwanegol o 10 y cant y flwyddyn i gefnogi 'Cymunedau sydd â'r un Buddiannau'.

6.4 Teimlai RNIB Cymru fod cyfiawnhad i gynnwys ‘Cymunedau sydd â'r un Buddiannau’ am fod pobl ddall a phobl sydd â golwg rhannol yn wynebu anfantais gymdeithasol wirioneddol a dybryd ym mhob cylch o fywyd a nodir ar y Mynegrif Amddifadedd Lluosog. Mae hynny'n cynnwys incwm, diweithdra, iechyd, addysg, tai a mynediad at wasanaethau. Awgrymodd David Groves y dylai'r elfen 'Cymunedau sydd â'r un Buddiannau' fod â 'Hyrwyddwr Anabledd', a fyddai'n esmwytháu'r ffordd er mwyn gwella pethau ac yn gweithredu fel cyd-drefnydd gyda'r swyddogion datblygu cymunedol oddi mewn i awdurdodau lleol. Ar ben hynny, yr oedd RNIB Cymru o blaid sefydlu partneriaeth gymunedol a fyddai'n cwmpasu pob anabledd ac a fyddai â gweledigaeth hirdymor a chynllun cyflenwi.

6.5 Yr oedd Jim Edwards o RNID Cymru yn cefnogi cynnwys 'Cymunedau sydd â'r un Buddiannau' o fewn *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*, ynghyd â chyllid ychwanegol. Cefnogai hefyd y cynnig i sefydlu ‘Hyrwyddwr Anabledd' i hwyluso'r rhaglen. Byddai hyn yn help i fynd i'r afael â'r anfantais gymdeithasol ac economaidd a wynebir gan y 450,000 o bobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru.

6.6 Dywedodd Jim Edwards fod pobl fyddar a thrwm eu clyw yn rhannu profiadau cyffelyb o ran cyflogaeth, addysg ac iechyd. Ymysg yr enghreifftiau yr oedd cyfraddau diweithdra i bobl fyddar a thrwm eu clyw sydd bum gwaith yn uwch na'r cyfraddau i bobl heb anableddau, yn ogystal â'r niferoedd isel sy'n manteisio ar y Lwfans Byw i'r Anabl – mae hynny i'w briodoli'n bennaf i'r ffurflenni hunanasesu. Yr oedd anawsterau cyfathrebu yn gwneud yr anfanteision a wynebir eisoes yn waeth gan arwain at fwy o ynysu cymdeithasol a chamwahaniaethu. Mae'r prinder dirfawr o ddehonglwyr yng Nghymru yn enghraifft o'r diffyg cymorth cyfathrebu sydd ar gael.

6.7 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â 'Chymunedau sydd â'r un Buddiannau' a manteision diffinio cymunedau yn y fath dermau eang. Cytunai'r Pwyllgor y byddai angen gweithredu'n strategol er mwyn cydnabod 'Cymunedau sydd â'r un Buddiannau' ledled Cymru, gyda golwg ar fynd i'r afael â'r anfanteision penodol a wynebir gan bobl sydd ag anableddau.
- Mynegwyd pryder neilltuol gan y Pwyllgor nad yw pobl sydd ag anableddau yn manteisio ar y budd-daliadau priodol, yn enwedig y Lwfans Byw i'r Anabl. Yr oedd yna gefnogaeth i ymgyrch drwy Gymru gyfan i roi gwybod i bobl am y budd-daliadau lles sydd ar gael iddynt ac annog mwy o bobl i fanteisio arnynt. Yn ogystal, byddai symleiddio'r ffurflenni hawlio a gweithio'n agos gyda'r Canolfannau Cynghori yn sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â chyllido'r rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* a pha un y byddai grwpiau cymuned yn gallu manteisio'n uniongyrchol ar y cyllid. Yn gyffredinol yr oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn dal y cyllid. Cydnabyddid bod llywodraeth leol yn atebol i'r cyhoedd ac yn gweithio mewn modd tryloyw ac agored. Cytunai'r Aelodau y dylai ffrwd gyllido *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* gydsymud cyn

belled ag y mae hynny'n bosibl gyda rhaglenni eraill sy'n bodoli'n barod.

- O ran sefydlu a chynnal partneriaethau, nododd y Pwyllgor fod pob awdurdod lleol eisoes wedi sefydlu compact gyda'r sector gwirfoddol. Teimlai un Aelod fod angen canllawiau digonol i sicrhau cydbwysedd priodol ar y partneriaethau. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu copi i'r Aelodau o'r canllawiau sydd i'w rhoi i'r partneriaethau lleol o dan y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*.
- Cododd un Aelod gwestiwn yngln â'r cyfyngiadau sy'n deillio o ddyrannu cyllid ar sail fformwla ym maes addysg a'r diffyg hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i anghenion lleol – materion sy'n amlwg iawn allan yn y gymuned. Yr oedd yna bryder neilltuol nad yw lefel yr arian sydd gan ysgolion wrth gefn yn cael ei chymryd i ystyriaeth o gwbl wrth ddyrannu cyllid i ysgolion. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

6.8 Diolchodd y Cadeirydd i David Groves a Jim Edwards am eu cyflwyniadau. Gwahoddodd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.* Cytunodd y Gweinidog i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen o ran symud *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* yn ei flaen.

**Ethol Cadeirydd dros dro**

Dywedodd y Cadeirydd na allai fod yn bresennol ar gyfer gweddill yr eitemau oherwydd salwch yn y teulu. Etholwyd Peter Law yn Gadeirydd dros dro am weddill y cyfarfod. Wrth gymryd y Gadair dywedodd Peter Law fod y Pwyllgor yn meddwl am y Cadeirydd a'i theulu. Ar ran y Pwyllgor, dymunodd adferiad buan hefyd i ferch y Gweinidog.

**Eitem 7: Cyflwyniad ar waith y Gwasanaethau Tân yng Nghymru**

7.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y Gwasanaethau Tân i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i roi eu cyflwyniad. Yn dilyn rhagarweiniad gan y Cyng Ted George, dywedodd Ronnie King fod y Gwasanaethau Tân yn cael eu cydnabod fel gwasanaethau sy'n llwyddo gyda lefelau perfformiad uchel a lefel uchel o foddhad ymysg y cyhoedd. Fodd bynnag, yr oeddynt yn cydnabod bod angen moderneiddio a newid ac yn croesawu'r angen i weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol o fewn cymunedau yng Nghymru.

7.2 Dywedodd Simon Smith fod yna berthynas glir rhwng marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a bregrusrwydd cymdeithasol. Yr oedd hyn o'r pwys pennaf wrth geisio sicrhau diogelwch rhag tân. Yr oedd marwolaethau yn y cartref yn fwy cyffredin ymysg yr ifanc a'r hen, yn enwedig pobl dlawd a difreintiedig, boed hwy'n byw ar eu pen eu hunain ynteu mewn tai amlbreswyliaeth. Yr oedd y Gwasanaethau Tân yn cydnabod pwysigrwydd atal tanau a'r angen i fod yn rhagweithiol er mwyn sicrhau canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys gosod systemau canfod tanau a systemau diffodd awtomatig gan gynnwys larymau mwg a thaenellwyr domestig sy'n gweithio ar y prif gyflenwad trydan (neu wedi'u weiro yn rhan o'r adeilad). Dywedodd Simon Smith nad oes cofnod bod unrhyw un yn unrhyw fan wedi marw mewn tân mewn adeilad a oedd wedi'i ddiogelu gan system daenellu.

7.3 Dywedodd Brian Fraser fod cynnau tân yn fwriadol yn arbennig o gyffredin yng Nghymru ac i gyfrif am bron i hanner y tanau. Yn 1999-2000, cynnau tân yn fwriadol oedd i gyfrif am 30 y cant o'r tanau mewn tai yn y De a'r De Ddwyrain; 75 y cant o'r tanau mewn ysgolion; ac 81 y cant o'r tanau mewn cerbydau. Cydnabyddai'r Gwasanaethau Tân na allent fynd i'r afael â phroblem cynnau tanau'n fwriadol ar eu pen eu hunain. Byddai gofyn cael deialog parhaus gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yngln â'r materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynnau tanau'n fwriadol, a dim ond drwy weithio drwy bartneriaeth y gellid mynd i'r afael â'r materion hynny.

7.4 Yr oedd y Gwasanaethau Tân yn neilltuo adnoddau sylweddol i ddelio â thua 10,000 o ddamweiniau traffig bob blwyddyn. Yr oeddynt yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Iechyd ac Ambiwlans, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Teimlai'r Gwasanaethau Tân fod eu cyfraniad nhw yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyllidebau'r Awdurdodau Iechyd. Awgrymasant y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi cyfarwyddyd cryf yngln â damweiniau ffordd, gan y byddai hynny'n help i'r Gwasanaethau Argyfwng ddatblygu protocol ar y cyd, gyda strategaeth gorfforaethol.

7.5 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor ymrwymiad y Gwasanaethau Tân i atal tanau, yn ogystal â'u hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion cymdeithasol sydd wrth wraidd y broblem. Nodwyd y byddai'r gweithgorau a sefydlwyd yn ddiweddar i ystyried diogelwch rhag tân yn y gymuned yn symud y materion a godwyd yngln â larymau mwg wedi'u weiro, taenellwyr domestig a chynnau tanau'n fwriadol yn eu blaen. Cytunai'r Aelodau fod rhaglen addysg effeithiol, sy'n cynnwys rheoli risg a'r effaith a gaiff cynnau tanau'n fwriadol, yn holl bwysig.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r posibilrwydd o newid y Rheoliadau Adeiladu er mwyn cynyddu diogelwch rhag tân, yn enwedig yn y cartref. Cydnabyddai'r Gwasanaethau Tân fod yn rhaid i'r rheoliadau hyn ddal y fantol rhwng ystod o anghenion, gan gynnwys hygyrchedd, iechyd a diogelwch.
- Nododd y Pwyllgor fod y cyfrifoldeb am y Gwasanaethau Tân yn gorffwys gyda'r Ysgrifennydd Cartref ar hyn o bryd. Dywedodd y Cyng Ted George y byddai'r Gwasanaethau Tân yng Nghymru yn croesawu trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddiogelwch rhag tân i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan y byddai hynny'n rhoi llais cryfach i'r Gwasanaethau Tân.

7.6 Diolchodd Peter Law i'r Gwasanaethau Tân am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Gofynnodd i'r Cyng Ted George a'r Prif Swyddogion Tân gyfleu diolch y Pwyllgor i bawb sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Tân.

**Eitem 8: Adroddiad cynnydd i'r cyfarfod llawn: LGH-06-01 (p.5)**

8.1 Eglurodd Peter Law fod yr adroddiad cynnydd, sy'n ymdrin â deuddeg mis gweithredol cyntaf

y Pwyllgor, i'w gyflwyno i'r cyfarfod llawn i'w ystyried ar 15 Mai. Gwahoddodd sylwadau'r Aelodau ar yr adroddiad drafft.

8.2 Ar ôl rhywfaint o drafod, nodwyd mai diben yr adroddiad oedd rhoi crynodeb ffeithiol o waith y Pwyllgor dros y deuddeg mis blaenorol. Cytunwyd ar rai newidiadau drafftio y teimlai'r Aelodau oedd yn adlewyrchu perthynas y Pwyllgor gyda'r Bartneriaeth Llywodraeth Leol yn well. Yn ogystal, cytunwyd i ehangu'r cyfeiriadau at y sylw a roddwyd gan y Pwyllgor i faterion trawsbynciol, yn enwedig mewn perthynas â thai.

8.3 Dywedodd Peter Law y câi fersiwn diwygiedig o'r adroddiad ei gyflwyno cyn y ddadl yn y cyfarfod llawn.

**Eitem 9: Blaenraglen waith strategol: LGH-06-01 (p.6)**

9.1 Dywedodd Peter Law fod y flaenraglen waith strategol wedi'i diwygio i adlewyrchu sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau pwnc eraill a Chabinet y Cynulliad. Gwahoddodd sylwadau'r aelodau ar y drafft diweddaraf, a oedd i'w gyflwyno i'r cyfarfod llawn i'w ystyried ar 15 Mai.

9.2 Yr oedd yna bryder o hyd yngln â'r ffordd yr oedd y strategaeth tai genedlaethol yn cael ei thrin yn y rhaglen. Awgrymwyd y dylai'r strategaeth gael ei hystyried mewn pedwar sesiwn ar wahân a fyddai'n cynnwys un o'r Grwpiau Gorchwyl a fu â rhan yn y gwaith o helpu i lunio'r strategaeth ddrafft. Dywedodd Peter Law fod y flaenraglen waith wedi'i hailwampio er mwyn neilltuo ail hanner cyfarfod 6 Mehefin yn ei chyfanrwydd i'r strategaeth, ac yr oedd cynrychiolwyr o'r Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai i fod i gyfrannu at y cyfarfod. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y strategaeth i gael ei hystyried mewn cyfarfod llawn yng Ngorffennaf ac y byddai'n parhau i ddatblygu wedi hynny, gyda'r Pwyllgor yn cyfrannu yn y ffordd arferol.

9.3 Yr oedd yna bryder hefyd yngln â'r ffordd y câi *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* ei drin yn y rhaglen, ac yn enwedig pa un a fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor dderbyn rhagor o gyflwyniadau gan grwpiau cymunedol a chyrff cynrychiadol. O fewn y pwysau ar amser y Pwyllgor, awgrymwyd y gellid rhoi sylw i hyn fel rhan o'r adolygiad polisi ar adfywio cymunedol sydd wedi'i gynllunio. Dywedodd Clerc y Pwyllgor y byddai'n paratoi cynigion ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys cylch gwaith a chynllun prosiect, cyn gynted ag y byddai wedi derbyn sylwadau'r Aelodau ar yr awgrymiadau a roddwyd gerbron gan y Gweinidog.

9.4 Cytunodd Peter Law i drosglwyddo'r pryderon a godwyd i'r Cadeirydd. Dywedodd y byddai'r flaenraglen waith strategol yn cael ei chyflwyno cyn y ddadl mewn cyfarfod llawn.

**Eitem 10: Cofnodion cyfarfod 28 Mawrth**

10.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Mai 2001**

**Atodiad**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU YN DEILLIO O GYFARFOD 2 MAI**

1. Y Gweinidog i barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran nifer yr hawliadau a gyflwynir o dan gynllun Bellwin yng nghyswllt y llifogydd (paragraff 3.3).

2. Y Gweinidog i roi manylion y ceisiadau am gyllid ychwanegol i gwrdd â chost gwaith cyfalaf sy'n ofynnol o ganlyniad i'r tywydd garw i'r Aelodau (paragraff 3.3).

3. Y Gweinidog i ddarparu nodyn briffio i'r Aelodau yn nodi sut y bwriada fwrw ymlaen i roi'r fframwaith moesegol newydd ar waith (paragraff 3.3).

4. Y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau ar y canllawiau cynllunio defnydd tir mewn perthynas ag ail gartrefi yng Nghymru a Lloegr (paragraff 3.3).

5. Y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Aelodau ar y ceisiadau a wnaethpwyd o dan y Cynllun Grant Rheoli Tai (paragraff 3.3).

6. Y Gweinidog i ddarparu copi i'r Aelodau o ganllawiau'r cynllun i alluogi awdurdodau lleol i wneud defnydd helaeth o'u pwerau i ganiatáu rhyddhad rhag trethi i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau, ac i roi adroddiad yng Ngorffennaf a fyddai'n manylu ar sut yr oedd awdurdodau lleol wedi defnyddio'r adnoddau hyn (paragraff 3.4).

7. Y Gweinidog i roi dadansoddiad i'r Aelodau o'r cyllid sydd ar gael o dan y cynllun Cymunedau Yn Erbyn Cyffuriau (paragraff 5.3).

8. Y Gweinidog i ddarparu copi i'r Aelodau o'r canllawiau sydd i'w rhoi i bartneriaethau lleol o dan y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* (paragraff 6.7).

9. Y Gweinidog i godi'r cwestiwn yngln â'r cyfyngiadau sy'n deillio o ddyrannu cyllid ar sail fformwla ym maes addysg gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (paragraff 6.7).

10. Y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen o ran symud *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* yn ei flaen (paragraff 6.8).

11. Fersiwn diwygiedig o adroddiad cynnydd y Pwyllgor i gael ei gyflwyno cyn y ddadl yn y cyfarfod llawn (paragraff 8.3).

12. Cytunodd Peter Law i drosglwyddo'r pryderon a godwyd yngln â'r flaenraglen waith strategol i'r Cadeirydd; mae'r rhaglen i gael ei chyflwyno cyn y ddadl mewn cyfarfod llawn (paragraff 9.4).